



Cawsom wybod am brosiect **Camau** yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd 2019. Gwelais fod stondin ar y maes yn hyrwyddo cynllun iaith Gymraeg i leoliadau gofal plant yn y gweithle,. Fe wnes i holi am ragor o fanylion gan ein Swyddog Cefnogi, Olwen Jones a gan gwmni Sbectrwm. Roeddwn am gysylltu yn syth fel nad oeddem yn colli ar y cyfle!

Mae'r Cylch Yn Yr Ysgol wedi ei leoli yn Llanfair-ym-Muallt , ac mae hi'n her recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Daw bron pob un o'n plant o gartrefi Saesneg eu hiaith ac mae rhai eisoes wedi cadarnhau y byddant yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd gennym 4 aelod o staff pan oedd y cynllun **Camau** yn cael ei gynnal, gyda 2 o'r rheini yn ddysgwyr lefel uchel a 2 yn ddechreuwr. Wrth recriwtio staff,

roeddem wedi canfod fod yn rhaid darparu cefnogaeth i ddarpar staff i ddysgu neu loywi eu Cymraeg. Roedd hyn yn help i recriwtio a sicrhau na fyddai'r lleoliad yn gorfod cau. Mae holl staff y Cylch wedi mynychu sesiynau gyda'r nos yn flaenorol, drwy Dysgu Cymraeg yn y Canolbarth (Prifysgol Aberystwyth) yn eu hamser eu hunain. Yna sicrhodd y Cylch arian gan Gronfa'r Loteri i dalu staff i fynychu dosbarth nos am flwyddyn ar y lefel oedd yn berthnasol iddyn nhw.

Cyn i Olwen Jones, Swyddog gyda'r Mudiad ddechrau ar ei gwaith yn ymweld â'r Cylch, cawsom gyfnod heb swyddog i'n cynorthwyo. Yn ogystal, nid yw ein hathro ymgynghorol ym Mhowys, sy'n cefnogi'r Cylch, yn siarad Cymraeg chwaith. Roedd staff y Cylch felly yn poeni y byddai'r diffyg Cymraeg hwn yn effeithio ar sgiliau'r plant ac y byddai Estyn yn ei godi wrth arolygu, ac roedd hyn yn achosi pryder i ni. Roedd ein Menter Iaith leol yn gefnogol iawn a byddent yn dod i mewn i gynnal gweithgareddau gyda'r plant unwaith y tymor ac yn ein cefnogi a'n cyflwyno i apiau Cymraeg ac ati.

Cyn Covid, roedd Olwen o'r Mudiad yn dod i mewn bob tymor i ymgysylltu â'r plant hefyd ac mae'n dal i'n cefnogi gyda chyfieithu ac ati drwy ddulliau ar-lein. Symudwyd lleoliad y Cylch 3 blynedd yn ôl i'r ysgol Gynradd ac mae staff addysgu'r Cyfnod Sylfaen yn ein cefnogi i gyfieithu, benthycu adnoddau ac ati er ein bod yn endid ar wahân. Aeth ein harweinydd chwarae ar gwrs Cymraeg i ddechreuwr yn y Brifysgol Agored a mynychodd ein holl staff cwrs "Cymraeg gyda'r Teulu" bob wythnos am y flwyddyn yn ddi-dâl ac yn eu hamser eu hunain.

Dechreuon ni ddilyn cynllun **Camau** o fis Medi 2019 tan Ragfyr 2019. Wedi i ni orffen sesiynau **Camau** fe gafodd y Cylch gyfle i ymuno â Chynllun 'Croesi'r Bont' y Mudiad, ac mae hyn bellach yn digwydd ar-lein oherwydd Covid.

Roedd effaith **Camau** yn enfawr. Roedd ein tiwtor, Wendy Doel, yn hyfryd ac yn gwneud i ni deimlo'n gyfforddus gan fod y staff yn bryderus iawn am gael eu harsylwi wyneb yn wyneb. Buodd hi ddim yn hir cyn i bawb ddod yn fwy hyderus i "roi cynnig arni". Roedd bron pob aelod o staff yn ofni defnyddio'r iaith yr oeddynt wedi ei ddysgu mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, a rhoddodd Wendy yr hyder i ni wneud hyn drwy fod yn galonogol ac yn gadarnhaol. Roedd angen rhywun i fod yn bresennol gyda ni i roi hwb inni rannu a defnyddio'r hyn a wyddom. Bu Wendy yn ein canmol am roi cynnig arni a'n gwneud yn ymwybodol y gallem siarad mwy o

Gymraeg nag yr oeddem yn ei gredu mewn gwirionedd. Roedd y cwrs hwn yn ddelfrydol iawn i ni yn y Cylch, gan ei fod wedi'i gyflwyno mewn "amser real", yn ystod amser y Cylch.



Roedd Wendy yn mynychu ein lleoliad yn wythnosol ac ymgysylltu â ni mewn gwahanol weithgareddau ochr yn ochr â'r plant, ac yn modelu geirfa neu batrymau iaith yr oedd eu hangen arnom. Roedd yr eirfa a'r patrymau iaith i gyd yn berthnasol i'r plant, ac yn cynnwys yr eirfa angenrheidiol y byddai ei angen arnom e.e. Golchi dwylo! Fe fyddai Wendy yn gofyn beth oedd ein themâu yn y Cylch yr wythnos honno ac yn anfon e-bost atom gyda geirfa ymlaen llaw, er mwyn i ni allu ymgysylltu â'r geiriau a phatrymau iaith. Ar adegau, byddai hefyd yn cymryd yr amser i eistedd gyda staff yn unigol wrth gynnal gweithgareddau gyda'r plant, gan helpu lle bo'r angen gyda'r iaith. Gwelsom o adborth llafar gan rieni eu bod yn sylwi bod eu plentyn yn gwneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg a bod mwy o rieni'n dewis anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth drosglwyddo i'r Ysgol Gynradd. Fe wnaeth Wendy ein hannog hefyd i ddibynny mwy ar iaith y corff a chliwiau gweledol, a oedd yn effeithiol iawn yn unol ag egwyddorion cynllun trochi Croesi'r Bont.

Roedd y cwrs yn berthnasol i ni yn y gweithle. Roedd yn caniatáu i staff gael mynediad i'r hyfforddiant yn ystod eu horiau gwaith gan nad oes gennym ddigon o staff cyflenwi i ryddhau staff i fynychu hyfforddiant. Hefyd, mae cael gwneud y cwrs yn rhad ac am ddim yn gwneud gwahaniaeth oherwydd fel elusen, nid oes gennym yr arian i dalu am gyrsiau hirdymor. Gorau oll – mae ein Cymraeg a'n hyder wedi gwella!

Y peth mwyaf heriol oedd mynd i'r afael â hyder y staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Hefyd, mae diffyg cyfleoedd i siarad Cymraeg y tu allan i'r lleoliad yn ein cymuned gan mai ychydig o siaradwyr Cymraeg sydd yn ein hardal, yn ogystal â'r amser a'r arian i staff fynychu hyfforddiant.

Nododd Awdurdod Addysg Powys ein bod yn lleoliad cyfrwng Cymraeg sydd angen datblygu iaith Gymraeg y staff ac maent wedi rhoi cynllun datblygu i ni, ac wedi talu i ni gymryd rhan yn y cynllun 'Croesi'r Bont'. Mae Covid wedi effeithio ar hyn gan fod y cynllun yn cael ei wneud ar-lein ac felly mae'r heriau newydd a gwahanol i ni wrth gyflwyno'r cynllun heb hyfforddwr yn y lleoliad gyda ni bob wythnos.

Byddem wrth ein bodd yn parhau â chynllun **Camau** yn y lleoliad - roeddem yn teimlo ei fod yn fuddiol ac yn berthnasol iawn a bydden ni ddim wedi gallu gofyn am diwtor gwell. Diolch Wendy Doel!

